**Hysbysiad Preifatrwydd Astudiaeth MDFT**

Rydym yn cynnal astudiaeth o bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â rhai o'r gwasanaethau plant a ddarperir gan Barnardo's yn ardal Casnewydd. Diben yr astudiaeth yw darganfod p'un a fyddai dull newydd yn helpu pobl ifanc i leihau eu defnydd o alcohol a/neu sylweddau yn y dyfodol. Mae'r astudiaeth yn cael ei hariannu gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid (YEF). Ar ddiwedd yr astudiaeth, bydd gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolyn yn uniongyrchol yn cael ei thynnu o'r data a gesglir sy'n berthnasol i bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth a bydd yn cael ei storio mewn amgylchedd diogel ym Mhrifysgol Caint, am 5 mlynedd ar gyfer data ysgrifenedig a 10 mlynedd ar gyfer data electronig. Bydd data sy'n berthnasol i bobl ifanc sy'n cymryd rhan yr astudiaeth, heb unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i'w hadnabod yn uniongyrchol, yn cael ei drosglwyddo i'r cyllidwr. Gall y data hwn gael ei ddadansoddi yn y dyfodol ynghyd â data o ffynonellau gwahanol o fewn y Gwasanaeth Ymchwil Diogel a reolir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Dylai'r wybodaeth a ddarperir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn gael ei darllen ochr yn ochr â hysbysiad preifatrwydd ymchwil Prifysgol Caint https://media.www.kent.ac.uk/se/40432/ResearchParticipantUniversityLevelPrivacyNotice.pdf

Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch pwy ydym ni, yr hyn rydym ni'n ei wneud, a pham ein bod yn ei wneud. Mae hefyd yn egluro sydd y byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol a gasglwn fel rhan o'r astudiaeth.

**Pwy ydym ni?**

Mae'r astudiaeth yn cael ei threfnu gan y Ganolfan ar gyfer Astudiaethau Gwasanaeth Iechyd ym Mhrifysgol Caint (www.kent.ac.uk/chss). Pan fyddwn yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol cyfranogwyr fel rhan o'r astudiaeth, Prifysgol Caint yw rheolwr data'r wybodaeth bersonol, sy'n golygu ein bod yn penderfynu pa wybodaeth bersonol i'w chasglu a sut caiff ei defnyddio.

**Beth ydym ni'n ei wneud?**

Rydym yn gwerthuso dull newydd o weithio gyda phobl ifanc sy'n defnyddio alcohol a /neu sylweddau anghyfreithlon yng Nghasnewydd. Mae'r dull newydd yn cynnwys staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ddarparu therapi a chefnogaeth ddwys i rieni a phobl ifanc. Mae ein hastudiaeth yn ymchwilio i p'un a yw'r dull newydd hwn yn well na'r dull a ddefnyddir fel arfer. Bydd ein hymchwil yn rhoi gwybod i ni beth sy'n gweithio orau ar gyfer pobl ifanc.

**Manylion cyswllt:**

Arweinydd Prosiect – Yr Athro Simon Coulton, s.coulton@kent.ac.uk, 01227 824535 Swyddfa Diogelu Data – dataprotection@kent.ac.uk

**1. Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth hon?**

Mae'r astudiaeth hon wedi'i hadolygu a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Caint ref tba a Phwyllgor Moeseg Ymchwil Barnado's ref tba.

**2. Pa wybodaeth fyddwn ni'n ei chasglu?**

Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch chi [eich plentyn/plentyn yn eich gofal] megis eu henw, cyfeiriad, manylion cyswllt, dyddiad geni, rhyw, ac ethnigrwydd. Bydd y wybodaeth hon

yn cael ei darparu gan y tîm Barnado's sy'n gweithio yn ardal Casnewydd, a byddwn yn derbyn y wybodaeth hon os byddwch yn cydsynio iddi gael ei darparu i'r tîm ymchwil yn unig. Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth gan ddefnyddio set o holiaduron sydd wedi'u cynllunio a'u profi'n benodol ar gyfer pobl ifanc. Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch ddefnydd alcohol a /neu sylweddau, ymddygiad troseddol, ymddygiad emosiynol, iechyd meddwl, lles a theulu [eich plentyn/plentyn yn eich gofal]. Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth ynghylch p'un a yw [eich plentyn/plentyn yn eich gofal] wedi cael cysylltiad â'r heddlu neu'r llysoedd a ph'un a ydynt wedi cael eu diarddel neu eu gwahardd o'r ysgol. Byddwn yn casglu'r wybodaeth hon yn uniongyrchol gan eich plentyn neu'r plentyn sydd yn eich gofal.

### 3. Sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwn?

Mae deddfau diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael rheswm dilys i ddefnyddio gwybodaeth bersonol [eich plentyn/plentyn yn eich gofal]. Cyfeirir at hyn fel ein 'sail gyfreithiol dros brosesu'.
Rydym yn dibynnu ar sail budd y cyhoedd i ddefnyddio eu gwybodaeth bersonol (Erthygl 6(1)(e) o Reoliad Cyffredinol Diogelu Data'r DU). Byddwn yn defnyddio gwybodaeth categori arbennig (gwybodaeth am iechyd, hil neu darddiad ethnig) a gwybodaeth am droseddau) am fod hyn yn hanfodol ar gyfer ein dibenion ymchwil sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon neu at ddibenion ystadegol sydd er budd y cyhoedd (Erthygl 9(2)(j) ac Erthygl 10 o Reoliad Cyffredinol Diogelu Data'r DU).

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i werthuso pa mor dda mae'r dull newydd wedi gweithio ac i ysgrifennu adroddiad ynghylch ein canfyddiadau yn seiliedig ar yr holl holiaduron a'r cyfweliadau yr ydym wedi'u cynnal.

Ni fydd yr adroddiad terfynol ac unrhyw gyhoeddiad arall a gynhyrchir gan Brifysgol Caint yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol ynghylch y bobl a gymerodd ran yn yr astudiaeth, ac ni fydd yn bosibl adnabod unigolion o'r adroddiad. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoedd ar wefan YEF.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol [a roddwch chi/eich plentyn/y plentyn yn eich gofal] yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol.

- Efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda pherson neu sefydliad arall os [ydych chi/eich plentyn/y plentyn yn eich gofal] yn dweud rhywbeth wrthym yn ystod yr astudiaeth sy'n codi pryder yn eu cylch neu ynghylch rhywun arall. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y camau y gallwn eu cymryd os oes gennym bryderon am [eich lles chi/eich plentyn/ y plentyn yn eich gofal], neu les person arall yn ein Polisi Diogelu (https://media.www.kent.ac.uk/se/46156/SafeguardingPolicyandProcedureSepte mb er2024.pdf). Rydym yn dibynnu oblygiad cyfreithiol (Erthygl 6(1)(c) y Rheoliad Cyffredinol ar Diogelu Data'r Du) ar gyfer y prosesu hwn. Rydym hefyd yn dibynnu ar Erthygl 9(2)(g) budd sylweddol i'r cyhoedd (diogelu) ar gyfer unrhyw wybodaeth iechyd y mae'n rhaid i ni ei hadrodd.

- Unwaith y byddwn wedi gorffen ein hastudiaeth, byddwn yn rhannu'r holl wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu ynghylch y bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan gyda'r cyllidwr YEF. Bydd gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolyn yn uniongyrchol wedi'i thynnu o unrhyw ddata cyn ei rannu â'r cyllidwr, gellir dod o hyd i gopi o hysbysiad preifatrwydd y cyllidwr yma (https://youthendowmentfund.org.uk/wp-

content/uploads/2021/07/YEF-Data-Guidance-Participants-LGR.pdf)
Trwy gynnal yr archif a galluogi ymchwilwyr wedi'u cymeradwyo i gael mynediad at wybodaeth yn yr archif, mae'r YEF yn ymgymryd â thasg gyhoeddus, ac mae hyn yn rhoi sail gyfreithiol i YEF ddefnyddio'r wybodaeth hon.

- Dim ond ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo a all ddefnyddio gwybodaeth yn archif YEF i archwilio a gafodd hyn, a rhaglenni eraill a ariannwyd gan YEF, effaith dros gyfnod hirach. Bydd hyn yn helpu ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo ddarganfod effaith tymor-hir y prosiectau sydd wedi'u hariannu gan YEF am y byddant yn gallu gweld, er enghraifft, p'un a yw bod yn rhan o brosiect yn lleihau'r tebygolrwydd o waharddiad o'r ysgol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol.

**Sut caiff y wybodaeth yn archif YEF ei diogelu?**

Mae'r YEF wedi rhoi mesurau cadarn ar waith i ddiogelu'r wybodaeth yn eu harchif. Ynghyd â thynnu unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod person fel y disgrifir yn adran 4, mae'r archif yn cael ei diogelu gan fframwaith 'Pum Sêff' y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Dim ond ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo mewn lleoliadau diogel all gael mynediad at y wybodaeth ac mae cyfyngiadau llym ynghylch sut y gellir defnyddio'r wybodaeth. Rhaid i bob cynnig gael ei gymeradwyo gan banel moeseg. Ni all gwybodaeth yn yr archif YEF gael ei defnyddio gan gyrff gorfodi'r gyfraith na gan y Swyddfa Gartref er dibenion gorfodi mewnfudo.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr archif YEF a'r Pum Sêff ar wefan yr YEF https://youthendowmentfund.org.uk/evaluation-data-archive/. Rydym yn annog cyfranogwyr, rhieni, a gwarcheidwad i ddarllen canllaw YEF ar gyfer cyfranogwyr cyn penderfynu cymryd rhan yr astudiaeth hon.

Unwaith bydd gwybodaeth yn mynd i'r archif YEF ni ellir ei dileu mwyach am y byddai hynny'n effeithio ar ansawdd y data a archifwyd at ddefnydd mewn ymchwil yn y dyfodol.

**Cadw a dileu**

Bydd Prifysgol Caint yn cadw copi wedi'i anonymeiddio o ddata ysgrifenedig [eich plentyn/plentyn yn eich gofal] am ddim mwy na phum mlynedd a dim mwy na 10 mlynedd ar gyfer data electronig, ar ôl diwedd yr astudiaeth. Unwaith y bydd casglu a sicrhau ansawdd data ar gyfer y cyfranogwr terfynol wedi'i gasglu, a chyn trosglwyddo'r data i archif data YEF, bydd yr holl wybodaeth bersonol adnabyddadwy yn cael ei thynnu o'r set ddata a gedwir gan Brifysgol Caint. Ar y pwynt hwn ni fydd modd adnabod unrhyw unigolyn gan ddefnyddio'r data a gedwir gan Brifysgol Caint.

Bydd YEF yn cadw gwybodaeth yr archif YEF cyhyd a bod ei hangen at ddibenion ymchwil. Mae deddfau diogelu data yn caniatáu i wybodaeth bersonol gael ei chadw am gyfnodau hirach o amser lle bo angen at ddibenion ymchwil ar archifo er budd y cyhoedd, ac er dibenion ystadegol. Bydd YEF yn cynnal adolygiad bob pum mlynedd i asesu p'un a oes budd parhaus o gadw'r wybodaeth yn yr archid, yn seiliedig ar ei defnydd posibl mewn ymchwil yn y dyfodol.

**Hawliau diogelu data**

Mae [gennych chi/ eich plentyn/ y plentyn yn eich gofal] yr hawl i:

- ofyn am fynediad at wybodaeth bersonol a gedwir gennym amdanoch/amdano.
- ofyn i gywiro unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir gennym sy'n anghywir neu'n anghyflawn.
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mewn amgylchiadau penodol, mae gennych hefyd yr hawl i:

- ofyn i ni ddileu'r wybodaeth bersonol lle nad oes rheswm da dros i ni barhau i'w chadw, os nad ydym eisoes wedi dileu'r wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolyn.
- gwrthwynebu ein defnydd o wybodaeth bersonol at ddibenion tasg gyhoeddus.
- gofyn i ni gyfyngu neu ohirio'r defnydd o wybodaeth bersonol, er enghraifft, os ydych eisiau i ni gadarnhau ei chywirdeb neu ein rheswm dros ei defnyddio.

Os ydych yn dymuno arfer unrhyw o'r hawliau hyn yn ystod cyfnod yr astudiaeth, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data (dataprotection@kent.ac.uk). Byddwn yn ymateb fel arfer o fewn 1 mis o dderbyn eich cais.

Wrth arfer unrhyw un o'r hawliau data hyn, gallem fod angen gofyn am ragor o wybodaeth gan [eich plentyn/ y plentyn yn eich gofal] i'n helpu i gadarnhau [eich/ei] hunaniaeth. Mae hyn yn fesur diogelwch i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu â pherson nad oes ganddynt yr hawl i'w derbyn. Mae'n bosib y bydden hefyd yn cysylltu â chi er mwyn holi am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'ch cais er mwyn cyflymu ein hymateb.

**Gwybodaeth preifatrwydd arall**

**Categorïau o wybodaeth bersonol**

Os ydych yn penderfynu y gall [eich plentyn/y plentyn yn eich gofal] gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, byddwn yn gofyn am y wybodaeth bersonol ganlynol ganddynt:

- Enw cyntaf
- Cyfenw
- Dyddiad Geni
- Cyfeiriad cartref
- Cyfeiriad amgen (os yn briodol)
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Manylion cyfryngau cymdeithasol (os yn fodlon eu darparu)
- Rhyw
- Ethnigrwydd
- Defnydd o alcohol a/neu sylweddau
- Troseddu
- Iechyd meddwl
- Iechyd Corfforol
- Cyswllt gyda'r System Cyfiawnder Troseddol

**Rhannu gwybodaeth bersonol [eich plentyn/y plentyn yn eich gofal/eich gwybodaeth]**

Dim ond os ydym yn fodlon ei bod yn gyfreithlon ac yn deg gwneud hynny y byddwn yn

defnyddio gwybodaeth bersonol [eich plentyn/y plentyn yn eich gofal].

**Diogelwch data**

Byddwn yn rhoi mesurau technegol a threfniadol ar waith i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol [gwybodaeth eich plentyn/y plentyn yn eich gofal], gan gynnwys:

- Cyfyngu mynediad i ymchwilwyr penodol a enwir sydd angen mynediad at ddibenion cynnal yr astudiaeth, megis cysylltu â phobl ifanc neu gael sgwrs ddilynol.
- Cadw manylion personol megis enw a chyfeiriad ar wahân i bob data arall a chysylltu'r rhain gyda chod adnabod unigryw.
- Cadw data'n ddiogel ar weinyddwr wedi'i amgryptio a sicrhau y crëir copïau wrth gefn o ddata'n rheoliad er dibenion diogelwch.

**Trosglwyddiadau Rhyngwladol**

Mae Prifysgol Caint yn defnyddio Microsoft 365 fel ei brif system TG ac felly Microsoft yw'r prosesydd data. Mae data personol yn ein tenant Microsoft 365 yn cael ei letya yn y DU. Am fwy o wybodaeth ewch i https://www.microsoft.com/licensing/docs/view/Microsoft-Products- and-Services-Data-Protection-Addendum-DPA.

**Adborth, ymholiadau, neu gwynion**

Os oes gennych unrhyw adborth neu gwestiynau ynghylch sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, neu os ydych yn dymuno gwneud cwyn, gallwch gysylltu â'r prif ymchwilydd neu'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyd yn gynharach.

Rydym bob amser yn eich annog i siarad â ni i ddechrau, ond os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data: https://ico.org.uk/make-a- complaint/.